**Mannau parcio ar lan y môr Aberystwyth a’r cynnig ynghylch codi tâl am barcio**

Ar hyn o bryd, mae parcio ar y stryd ar hyd y rhannau o lan y môr yn Aberystwyth sydd wedi’u dynodi fel rhan o’r cynnig hwn yn cael ei reoleiddio gan y Cyngor Sir. Yn gyffredinol, mae’r llefydd parcio hyn wedi’u cyfyngu i oriau penodol a cheir cilfachau dynodedig mewn amrywiol lefydd ar gyfer parcio i’r anabl, cludo nwyddau a cherbydau o ddosbarthiadau penodol (bysiau a thacsis).

Bwriad y cynnig yw cyflwyno ffioedd am barcio ar y stryd, lle nad yw hynny’n digwydd ar hyn o bryd, gan sicrhau cydbwysedd rhwng y canlynol: anghenion y trigolion lleol sy'n defnyddio gwasanaethau lleol gan ystyried lle maent yn byw/eu cartrefi; busnesau lleol; myfyrwyr y Brifysgol a’r ymwelwyr â’r dref.

Rhaid i barcio (ar y stryd ac oddi ar y stryd) fod ar gael yn y mannau cywir ac at y dibenion cywir. Ystyrir bod y rhan o lan y môr Aberystwyth, sy'n dod o dan y cynllun arfaethedig hwn, yn lleoliad gwerthfawr, y mae galw mawr amdano am ei fod yn agos at ganol y dref (gwasanaethau pob dydd, siopau a lletygarwch) ac am ei fod wedi'i leoli ar lan y môr (sy’n golygu y gellir cefnogi'r diwydiant lletygarwch ac atyniadau i ymwelwyr).

Y gobaith yw y bydd modd darparu mwy o lefydd ar gyfer parcio cerbydau ar lan y môr drwy sicrhau bod mwy o fynd a dod o ran y cerbydau sy’n defnyddio’r llefydd parcio heb fod hyn yn effeithio’n negyddol ar economi’r dref a llesiant y trigolion.

O edrych ar enghreifftiau o drefi tebyg ar yr arfordir mewn mannau eraill yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, mae cynlluniau codi tâl am barcio ar y stryd wedi bod mewn grym yn y llefydd hyn ers nifer o flynyddoedd. Mae’r trigolion a’r ymwelwyr fel ei gilydd wedi derbyn y cynlluniau hyn ac nid yw’r cynlluniau yn eu hunain wedi bod yn andwyol i hyfywedd na ffyniant y trefi hyn fel llefydd i fyw a gweithio ynddynt neu i ymweld â nhw.

Amcan y cynnig yw rheoli'n well y galw am barcio yn Aberystwyth gan annog pobl i ddefnyddio meysydd parcio oddi ar y stryd y Cyngor a fyddai'n fwy priodol ar gyfer diwallu'r galw hwn am barcio. Mae manteision arfaethedig y cynigion fel a ganlyn:

- Cynyddu trosiant y cerbydau sy’n parcio ar y stryd
- Disgwyl rhagor o fasnach
- Defnyddio mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus a defnyddio mwy nag un dull o deithio
- Lleihau tagfeydd traffig a gwella llif y traffig mewn mannau lle ceir llawer o draffig yng nghanol y dref
- Hyrwyddo rhagor o deithio llesol.

O dan y cynllun arfaethedig, byddai deiliaid y Bathodyn Glas yn cael eu heithrio o dalu am barcio a byddent hefyd yn cael eu heithrio o unrhyw gyfyngiadau amser pan fyddent yn parcio mewn man y codir tâl amdano ar yr amod eu bod yn arddangos eu Bathodyn Glas yn y modd a ragnodir. Mae’r eithriad hwn eisoes yn berthnasol o ran cilfachau aros cyfyngedig ac felly ni fyddai’r cynllun yn arwain at newid nac unrhyw effeithiau andwyol o ran parcio ar y stryd ar gyfer deiliaid bathodynnau glas.

Cynigir y dylai’r model o ran codi tâl am barcio ar y Promenâd fod fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| 2 awr | £3.50 |
| 4 awr | £5.00 |

a chynigir y dylid cyflwyno trefniadau ar gyfer codi tâl am barcio rhwng Trwyn y Castell a Chraig-glais, a byddai hyn yn golygu codi tâl ym mhob cilfach barcio (ac eithrio'r cilfachau sy'n benodol ar gyfer deiliaid Bathodynnau Glas yn unig) ar hyd Rhodfa Newydd (y tu allan i'r Hen Goleg, Stryd y Brenin, Glan y Môr a Rhodfa Fuddug.